# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd Paul Davies** **Ward:Caerau**

**Plaid: Llafur**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 4 Mai 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Caerau ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol lawer o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Rwyf wedi gwneud sawl atgyfeiriad i CBSP ar ran fy etholwyr (mae gormod i sôn amdanynt yn y ddogfen hon) a chafodd y rhan fwyaf o'r rhain eu datrys yn llwyddiannus, gan gynnwys gosod lamp stryd newydd rhwng Heol Coegnant a Stryd Margam oherwydd bod cael gwared ar yr hen un yn achosi llawer o bryder i drigolion yr ardal honno, a gosodd ffens afon newydd 200m o'r bont droed i'r bont droed gyfagos ag Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau a oedd mewn cyflwr peryglus.

Llwyddiant pellach oedd sicrhau bod y ffyrdd yn cael eu graeanu yn ystod eira'r gaeaf diwethaf o amgylch ardaloedd Blaencaerau a Pharc Caerau a gosod biniau graean ar Ffordd ac Ystad Blaencaerau.

Rwyf hefyd wedi defnyddio fy Nghronfa Gweithredu yn y Gymuned i gynorthwyo Tyfwyr Cymuned Caerau i brynu toiled compost ar gyfer eu prosiect i'w galluogi i ddarparu cyfleusterau ar gyfer y rhai sy'n dod i'w digwyddiadau, gan gynnwys plant ysgol Caerau sy'n dod i'r gerddi am resymau addysgol yn rheolaidd.

Roeddwn hefyd wedi cynorthwyo clwb Bowls Caerau i atgyweirio'r meinciau o amgylch y

lawnt ym Mharc Caerau, gan alluogi gwylwyr i wylio'r gemau yn gyfforddus.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig:**

Fel un o aelodau etholedig dros ward Caerau rwyf wedi cymryd rhan ym Mhrosiect Dŵr Glofa Caerau a gobeithio y bydd yn cyflenwi ynni di-garbon i gartrefi yn ardal Blaencaerau. Cyflawnir hyn drwy ddrilio i lawr i hen lofa Caerau a defnyddio'r dŵr sydd wedi'i wresogi gan y ddaear yn y lofa i wresogi cartrefi yn lleol. Roedd hwn yn addewid maniffesto a wnaed gan y blaid Lafur yn ystod etholiadau 2017 ac rydym yn aros am ganlyniadau o'r twll turio llwyddiannus i ganfod hyfywedd y prosiect. Ar hyn o bryd maent wedi lleoli'r lolfa ac mae dŵr wedi'i echdynnu er mwyn mesur lefelau gwres a maint. Cynhelir rhagor o gyfarfodydd cyhoeddus pan fydd y canlyniadau terfynol ar gael.

Fel cynghorydd rwyf wedi gorfod mynd i gyfarfodydd yn ymwneud â'r prosiect hwn lle mae pryderon a gwrthwynebiadau wedi'u codi, gan arwain at drefnu taith i'r Creunant yng Nghastell-nedd Port Talbot lle gallem arsylwi ar brosiect dŵr glofa ar waith. Roedd hon yn daith lwyddiannus a gwnaeth leddfu ofnau aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwy'n mynd i lawer o gyfarfodydd allanol ar wahân i'r rhai yn CBSP. Rwyf ar hyn o bryd yn gyfarwyddwr yn Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau (CDT) ac yn helpu lle gallaf ym musnes yr Ymddiriedolaeth.

Rwyf hefyd yn mynd i gyfarfodydd Invest Local Caerau (ILC) ar ran CDT lle rydym wedi sicrhau dros £30,000 yn ddiweddar er mwyn cynnal gwaith adnewyddu ar y gegin a'r ffreutur. Gall CDT bellach ddarparu prydau i aelodau mwyaf difreintiedig y gymuned.

Rwyf hefyd ar bwyllgor Fferm Wynt Llynfi Afan sy'n gorfod neilltuo £14,000 i gymuned Caerau yn flynyddol am y 24 mlynedd nesaf.

**Y Cynghorydd Paul Davies:** **Dyddiad: 28-Mai-2018**